Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Gyfres Gynllunio:
# 13 - Cytundebau Adran 106

Ebrill 2019




www.cynulliad.cymru/ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: **Elfyn.Henderson@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**
LinkedIn: **Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Gyfres Gynllunio: 13 - Cytundebau Adran 106

## Briff Ymchwil

Ebrill 2019

**Awduron:**
Elfyn Henderson and Robert Byrne

**Trosolwg o'r papur:**
Mae Gwasanaeth Ymchwil y Senedd yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Robert Byrne gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol, a alluogodd i'r Briff Ymchwil hwn gael ei gwblhau.

# Cynnwys

**Beth yw cytundebau Adran 106?** ..................................................... **1**

**Beth yw diben cytundeb Adran 106?** ............................................... **3**

**Sut mae cytundebau Adran 106 yn cael eu cytuno?** .................... **4**

**Sut mae cytundebau Adran 106 yn cael eu gorfodi?** .................... **5**

**Sut mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn wahanol i gytundebau Adran 106?** ........................................................................................ **6**

**Sut mae cytundebau Adran 106 ar gyfer tai fforddiadwy yn gweithio?** ........................................................................................ **7**

**Y prif ffynonellau** ........................................................................... **9**

- Llywodraeth Cymru ........................................................................ 9
- Cymorth Cynllunio Cymru ................................................................ 9
- Y Porth Cynllunio ............................................................................ 9
- Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru ....................................... 9
- Y Gwasanaeth Ymchwil ..................................................................... 9

**Y Gyfres Gynllunio:** Cytundebau Adran 106

## Beth yw cytundebau Adran 106?

Gwneir cytundebau Adran 106 o dan Adran 106 o ***Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990***. Weithiau fe'u gelwir hefyd yn rhwymedigaethau cynllunio neu gyfraniadau datblygwyr.

Mae cytundeb Adran 106 yn gontract preifat cyfreithiol rhwymol rhwng datblygwr (neu nifer o bartïon â diddordeb) ac awdurdod cynllunio lleol sy'n gweithredu ochr yn ochr â chaniatâd cynllunio statudol.

Mae cytundebau Adran 106 yn cynorthwyo wrth liniaru effeithiau negyddol datblygiad i'w wneud yn dderbyniol mewn cyswllt cynllunio. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr fodloni rhwymedigaethau cynllunio penodol wrth roi caniatâd cynllunio ar waith ac maent yn ganlyniad trafodaethau ar y materion hyn rhwng y partïon. Gellir ymrwymo i gytundeb er mwyn rhagnodi natur datblygiad, sicrhau cyfraniad gan ddatblygwr i wneud iawn am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddatblygiad, neu liniaru effaith ehangach datblygiad.

Gellir cyflawni rhwymedigaethau naill ai drwy ddarparu'r hyn sydd ei angen i safon a bennir yn y cytundeb neu drwy dalu swm i'r awdurdod cynllunio lleol a fydd yna'n darparu'r cyfleuster ei hun, neu drwy gyfuniad o'r ddau. Gall yr awdurdod cynllunio lleol ddefnyddio fformiwlâu a thaliadau safonol fel ffordd o wneud amcangyfrifon meintiol o lefel y cyfraniadau sy'n debygol o gael eu ceisio ar gyfer math penodol o rwymedigaeth gynllunio gan ddatblygiad unigol.

Weithiau dyfernir caniatâd cynllunio yn amodol ar lofnodi cytundeb Adran 106. Ni fydd hysbysiad o benderfyniad terfynol yn cael ei gyhoeddi hyd nes i'r cytundeb Adran 106 gael ei lofnodi. Y dyddiad y caiff y cytundeb Adran 106 ei lofnodi fydd y dyddiad penderfynu ar gyfer y caniatâd. Mae'r cytundeb Adran 106 yn bridiant cyfreithiol ar y tir, felly bydd yn trosglwyddo'n awtomatig gydag unrhyw newid perchnogaeth.

Mae **Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 13/97: Rhwymedigaethau Cynllunio** yn amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y defnydd o rwymedigaethau cynllunio.

Mae Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru wedi llunio **canllaw ar y defnydd o gytundebau Adran 106 i awdurdodau lleol yng Nghymru.**

Ers cyflwyno'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn 2010, mae rhai cyfyngiadau wedi'u gosod ar y defnydd o gytundebau Adran 106 (gweler cwestiwn 5 isod a'n papur briffio ar wahân ar yr Ardoll Seilwaith Cymunedol).

Mewn nifer gyfyngedig o achosion, os mai dim ond yr ymgeisydd sy'n destun rhwymedigaeth gynllunio ac nid yr awdurdod cynllunio lleol, yn hytrach na chytundeb Adran 106, caiff datblygwr wneud "ymgymeriad unochrog" i awdurdod cynllunio lleol i setlo rhwymedigaethau sy'n berthnasol i'w gais cynllunio.





# Beth yw diben cytundeb Adran 106?

Ar gyfer y rhan fwyaf o benderfyniadau cynllunio, mae awdurdod cynllunio lleol yn dibynnu ar **amodau cynllunio** sy'n gysylltiedig â chaniatâd cynllunio i reoli datblygu. Mae cytundebau Adran 106 yn wahanol i amodau cynllunio oherwydd gallant fod yn gymwys i faterion ar y safle datblygu ac oddi arno. Gallant hefyd ymestyn i dalu swm o arian i awdurdod cynllunio lleol. Mewn sefyllfa pan fo dewis uniongyrchol rhwng gorfodi amodau cynllunio neu ymrwymo i gytundeb Adran 106, dylid dewis gorfodi amodau cynllunio.

**Mae cytundebau Adran 106 yn cynorthwyo wrth liniaru effaith datblygu annerbyniol i'w wneud yn dderbyniol mewn cyswllt cynllunio.** Maent yn drefniadau defnyddiol er mwyn goresgyn rhwystrau a allai fel arall rwystro dyfarnu caniatâd cynllunio. Gellir defnyddio cyfraniadau gan ddatblygwyr i liniaru canlyniadau negyddol y datblygiad, i helpu i fodloni anghenion lleol, neu i sicrhau buddion fydd yn gwneud y datblygiad yn fwy cynaliadwy.

Gellir cynnwys cytundeb fel amod o ddyfarnu caniatâd cynllunio dim ond os yw'n bodloni'r profion statudol bod unrhyw rwymedigaethau cynllunio yn y cytundeb yn **angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio, yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad, ac yn gysylltiedig yn deg ac yn rhesymol o ran graddfa a math**. Gallai enghreifftiau gynnwys darparu mynediad uniongyrchol i'r safle, amddiffyn rhag llifogydd a mesurau i warchod bywyd gwyllt, a darpariaeth hamdden ar y safle, er enghraifft mannau agored.

Gellir defnyddio cytundebau o'r fath hefyd i sicrhau y darperir **tai fforddiadwy** neu gyfraniadau ariannol tuag at ddarparu tai fforddiadwy (gweler cwestiwn 6 isod). Gellir hefyd cyfuno'r cyfraniadau gan ddatblygwyr a gesglir drwy gytundebau Adran 106 er mwyn talu am ddatblygiadau seilwaith fel ysgol leol. Fodd bynnag, mae llai o gyfle i wneud hyn ers cyflwyno'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (gweler cwestiwn 5 isod).

# Sut mae cytundebau Adran 106 yn cael eu cytuno?

Dylai awdurdodau cynllunio lleol gynnwys polisïau cyffredinol am egwyddorion a defnydd rhwymedigaethau cynllunio yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r rhain yn cynnwys materion a gwmpesir gan rwymedigaethau a ffactorau i roi sylw iddynt wrth ystyried graddfa a ffurf cyfraniadau, neu lefel y ddarpariaeth tai fforddiadwy. Bydd Canllaw Cynllunio Atodol a baratowyd hefyd gan yr awdurdod cynllunio lleol fel arfer yn cynnwys mwy o fanylion am y lefel a'r math o rwymedigaethau sy'n debygol o gael eu ceisio, naill ai ar draws yr awdurdod cynllunio lleol neu o fewn ardal ddaearyddol benodol. Dylai awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael am eu polisïau rhwymedigaethau cynllunio er mwyn galluogi ymgeiswyr i ddeall yn glir pa lefel a pha fath o rwymedigaethau cynllunio y mae'r awdurdod cynllunio lleol yn debygol o geisio ganddynt.

Dylai trafodaethau am rwymedigaethau cynllunio ddigwydd mor gynnar â phosibl yn y broses gynllunio, yn cynnwys ar y cam cyn ymgeisio. Dylai hyn atal oedi wrth brosesu'r ceisiadau cynllunio hynny sy'n cael eu dyfarnu yn amodol ar gwblhau cytundebau Adran 106. Gall awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr ddefnyddio cyfryngwyr arbenigol annibynnol i helpu â'r broses o drafod manylion rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer ceisiadau cymhleth neu fawr, er mwyn helpu i hwyluso datrys anghydfodau pan fyddant yn achosi gormod o oedi i'r trafodaethau.

**Dylai awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod yr holl rwymedigaethau cynllunio cytûn yn cael eu cofrestru fel pridiannau tir lleol. Mae'r gofrestr pridiannau tir leol ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd a dylai gynnwys disgrifiad o'r pridiant a manylion ynghylch lle y gellir gweld y dogfennau perthnasol.**





# Sut mae cytundebau Adran 106 yn cael eu gorfodi?

Er mwyn sicrhau bod rhwymedigaethau cynllunio cytûn yn cael eu gweithredu'n effeithiol, dylai fod gan awdurdodau cynllunio lleol systemau ar waith i allu monitro'r gwaith o gyflawni rhwymedigaethau yn amserol ac yn effeithlon a chymryd unrhyw gamau gorfodi yn ôl yr angen.

Os na chydymffurfir â chytundeb Adran 106, mae'n orfodadwy drwy waharddeb yn erbyn y person a ymrwymodd i'r rhwymedigaeth ac unrhyw dirfeddiannwr dilynol. Penderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol yw a ddylid gorfodi rhwymedigaeth cynllunio, a sut i wneud hynny, gan ystyried ei amcanion cynllunio. Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol bwerau i fynd ar y tir i gynnal y gwaith ei hun ac i adfer ei dreuliau rhesymol wrth wneud hynny.

# Sut mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn wahanol i gytundebau Adran 106?

Pryd mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cael ei gyflwyno gan awdurdod cynllunio lleol, disgwylir y bydd yn disodli llawer o'r cyllid a ddarparwyd yn flaenorol o dan gytundebau Adran 106.

**Bwriad yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yw darparu seilwaith i gefnogi datblygiad ardal yn hytrach na gwneud ceisiadau cynllunio unigol yn dderbyniol o safbwynt cynllunio**. Mae rôl ddilys i rwymedigaethau cynllunio sy'n benodol i ddatblygiad o hyd, i alluogi awdurdod cynllunio lleol i fod yn hyderus y gellid lliniaru canlyniadau penodol datblygiad. Yn wahanol i'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, mae cyfraniadau o dan gytundebau Adran 106 yn agored i drafodaeth.

Roedd y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol yn cyflwyno cyfyngiadau statudol ar y defnydd o gytundebau Adran 106. Y prif reswm am hyn yw er mwyn osgoi sefyllfa lle gallai datblygwr fod yn talu am yr un peth drwy gyfrwng yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a'r cytundeb Adran 106.

P'un a yw Ardoll Seilwaith Cymunedol wedi cael ei chyflwyno mewn ardal ai peidio, o fis Ebrill 2015 mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyfyngu ar nifer y cyfraniadau cytundebau Adran 106 y gellir eu cyfuno i dalu am seilwaith newydd. Yn flaenorol, roedd modd cyfuno cyfraniadau o'r fath gan nifer o ddatblygiadau gwahanol i helpu i dalu am seilwaith newydd, fel ysgol newydd, ond ers mis Ebrill 2010 dim ond hyd at bum cyfraniad o'r fath a ganiateir. Mae hyn er mwyn annog rhagor o ddefnydd o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol gan awdurdodau cynllunio lleol.

Dylai awdurdodau sy'n cyflwyno'r Ardoll gyhoeddi rhestr o brosiectau neu fathau o seilwaith y maent yn bwriadu eu cyllido, neu y gallent eu cyllido, drwy'r ardoll (a elwir yn rhestr Rheoliad 123). Yna gall cytundebau Adran 106 gael eu defnyddio ar gyfer materion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â safle penodol yn unig, nad ydynt wedi'u nodi mewn rhestr Rheoliad 123.



**Y Gyfres Gynllunio:** Cytundebau Adran 106

# Sut mae cytundebau Adran 106 ar gyfer tai fforddiadwy yn gweithio?

Gellir defnyddio amodau cynllunio a chytundebau Adran 106, pryd y gellir cyfiawnhau hynny, i gyflawni datblygu a defnyddio tir mewn ffordd sy'n cyfrannu at fodloni'r angen a nodwyd am dai fforddiadwy ac i greu cymunedau cymysg a chynaliadwy. Ni ellir defnyddio'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i gasglu cyfraniadau ar gyfer tai fforddiadwy.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **chyfarwyddyd ymarfer** ar hyn ym mis Gorffennaf 2008. Ei nod oedd cynorthwyo mwy o awdurdodau cynllunio lleol i wella'r gwaith o ddatblygu, trafod a gweithredu cytundebau Adran 106 fel bod mwy o dai fforddiadwy yn cael eu cyflenwi drwy'r system gynllunio. Cyhoeddwyd **diweddariad i'r cyfarwyddyd** yn 2009.

Rhaid i gynlluniau datblygu lleol gynnwys targed ar gyfer yr awdurdod cyfan (wedi'i fynegi fel nifer y cartrefi) ar gyfer darparu tai fforddiadwy drwy'r system gynllunio. Mae hyn yn seiliedig ar yr angen am dai a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Dylai cynlluniau datblygu lleol hefyd nodi trothwyon capasiti safleoedd er mwyn gosod cyfran o dai fforddiadwy yn unol â hynny. Wrth drafod maint a nifer y tai fforddiadwy i'w darparu, dylid ystyried dilysrwydd cynllun ac unrhyw rwymedigaethau cynllunio eraill (e.e. gwelliannau i fynediad drwy ffyrdd).

Dylai cynlluniau datblygu lleol a/neu Ganllawiau Cynllunio Atodol nodi'r amgylchiadau lle y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn defnyddio amodau cynllunio neu gytundebau Adran 106 i sicrhau bod y tai fforddiadwy a ddarperir yn cael eu meddiannu am byth gan bobl sy'n perthyn i gategorïau penodol o angen.

Darparu tai fforddiadwy ar y safle yw'r opsiwn a ffefrir, ond mewn amgylchiadau eithriadol gall y ddarpariaeth fod oddi ar y safle. Mewn rhai achosion ffefrir cyfraniad ariannol yn lle darparu ar y safle (swm wedi'i gyfnewid).

Mae **cyfarwyddyd ymarfer** Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylai cytundebau Adran 106 o'r fath gynnwys rhai o'r canlynol, neu bob un ohonynt:

- diffinio fforddiadwyedd;
- pennu daliadaeth tai fforddiadwy;
- cymysgedd ac amseriad y ddarpariaeth, manyleb a safonau;
- mynediad a rheolaeth;
- y rheolau ynglŷn â chadw tai'n fforddiadwy am byth;
- defnyddio cyfraniadau datblygwyr (oddi ar y safle neu symiau wedi'u cyfnewid); a
- safleoedd eithriedig bach gwledig ar gyfer tai fforddiadwy yn unig.





# Y prif ffynonellau

## Llywodraeth Cymru

Mae **adran gynllunio** gwefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- **Cyflenwi tai fforddiadwy gan ddefnyddio Cytundebau Adran 106: Cyfarwyddyd Ymarfer (2008);**
- **Cyflenwi tai fforddiadwy gan ddefnyddio Cytundebau Adran 106: Cyfarwyddyd wedi'i ddiweddaru (2019);**
- **Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 13/97: Rhwymedigaethau Cynllunio;**
- **Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10, Rhagfyr 2018)**

## Cymorth Cynllunio Cymru

Sefydliad elusennol yw **Cymorth Cynllunio Cymru** sy'n helpu unigolion a chymunedau **cymwys** i gymryd rhan fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae'n cynnig gwasanaethau cynghori, gan gynnwys gwasanaeth llinell gymorth.

## Y Porth Cynllunio

Y **Porth Cynllunio** yw adnodd rheoliadau cynllunio ac adeiladu Llywodraeth y DU. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y system gynllunio yng Nghymru, er bod rhywfaint o'r cynnwys yn berthnasol i Loegr yn unig.

## Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru

- **Adran 106: Canllaw ar y defnydd o rwymedigaethau cynllunio i awdurdodau cynllunio yng Nghymru** (2008)

## Y Gwasanaeth Ymchwil

Mae papurau briffio eraill a luniwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ar gael ar **dudalen y Gwasanaeth Ymchwil ar wefan y Cynulliad,** ac ar ein blog: **Pigion/cynllunio**

